CYCA
Cysylltu Ieuenctid,
Plant ac Oedolion

Gorffennaf 2020

# Cylchlythyr CYCA


## MAE GENNYM GYMAINT I'W DDWEUD!

Ers i COVID-19 daro'r byd cyfan yn gynharach eleni, mae CYCA wedi camu'n ôl ac ailwerthuso'n gwasanaethau a'r hyn rydym yn eu cynnig. Hoffem roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn yr ydym wedi ei wneud. Ers mis Mawrth eleni; rydym wedi:

- Datblygu cyrsiau Newydd
- Datblygu cynnig newydd ar gyfer hyfforddi a chwnsela ar-lein
- Derbyn cyllid newydd i'n helpu ni i ddarparu mwy i'n cymuned
- Sicrhau safle newydd
- Paratoi i lansio ein Canolfan Ragoriaeth Newydd
- Lansio logo a brand Newydd
- Datblygu gwefan newydd
- Ymestyn ein cynnig presgripsiynu cymdeithasol
- Ein plantos bach
- Ac mae mwy




*Kath, Tracy, Lianna, Anette*
*(ch—dd)*



EIN CYFEIRIAD NEWYDD

CYCA: Cysylltu Ieuenctid, Plant ac Oedolion

Uned 2, Dragon 24,
Doc y Gogledd,
Llanelli
SA15 2LF

01554 776178
support@cycaonline.org

Rhif elusen gofrestredig: 512720




## CYRSIAU NEWYDD

Rydym wedi datblygu cyrsiau a Gweminarau Newydd:

- ⇒ i gefnogi'r gwaith ar ddio-gelwch ar-lein i blant
- ⇒ Lles proffesiynol a busnes-therapi gwybyddol ymd-dygiadol (CBT)
- ⇒ Tosturi a Diolchgarwch
- ⇒ Straen mewn Plentyndod
- ⇒ Webinars on a range of topics

*Danielle: "Rwy'n argymell y cwrs Gwydnwch i unrhyw un a phawb"*





## EIN CYNNIG NEWYDD AR-LEIN

Gan fod sefydliadau wedi cael eu gorfodi i gofleidio gweithio o bell, fe allai, ac fe ddylai Covid-19 newid patrymau gwaith a chyflenwi gwasanaethau'n barhaol.

Yn CYCA bu'n rhaid i ni ymateb yn gyflym i sicrhau bod y bobl rydyn ni'n eu cefnogi'n dal i dderbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw. Rydym wedi symud yr holl gefnogaeth y gallwn ni i gynnig rhithwir, ac wedi gweld cymaint o fanteision fel ein bod wedi ehangu'r cynnig hwn. Rydym yn bwriadu parhau â system hybrid (digidol a chorfforol) hyd yn oed ar ôl i'r cyfyngiadau pellhau cymdeithasol leihau neu ddod i ben.

Rydym bellach yn darparu llawer o'n hyfforddiant, mentora a chwnsela presennol ar-lein, ac rydym wedi cyflwyno cyrsiau newydd, a chynnig busnes hybrid.






*Diolch yn fawr Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Sefydliad y Cymunedau, Plant mewn Angen y BBC, Gwobrau i bawb a Sefydliad Screwfix*

## CYLLID


Rydym mor ddiolchgar o fod wedi derbyn cyllid gan Sefydliad y Cymunedau, a Plant mewn Angen y BBC. Bydd cefnogaeth gan Sefydliad y Cymunedau yn ein galluogi i sicrhau tiwtor gweithiwr cymorth ychwanegol i helpu gyda'r galw mawr gan ein cymuned i gadw pawb mewn cysylltiad. Bydd cyllid Plant Mewn Angen yn ein helpu i roi sesiynau diogelwch ar-lein i bobl ifanc ddifreintiedig a allai fod yn agored i gael eu hecsbloetio. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu mwy i'n cymuned, ac i'n helpu i gyflogi Swyddog Cadernid Digidol rhan-amser i ddarparu gweithdai hyfforddi i blant sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio ar-lein.


Diolch hefyd i Gwobrau i bawb a Sefydliad Screwfix. Ni'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr!

Heb ein gwasanaethau, ni fyddai cannoedd o blant ledled Sir Gaerfyrddin yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel rhag niwed.

### *Hoffem hefyd ddiolch ...*

... diolch yn fawr am yr holl ffitrwydd a hwyl i Alex am y dosbarthiadau Zumba wythnosol a Julie am y dosbarthiadau ffitrwydd mawr eu hangen.











## SYMUD I DRAGON24

Doc y Gogledd
Rydym yn y broses o symud i adeiladau newydd sy'n fwy o faint, fel y gallwn ymestyn ein cynnig a gweithio'n agosach gyda'r gymuned fusnes lleol.

Gobeithiwn gynnig cefnogaeth lles a threfniadau desg boeth i entrepreneuriaid lleol a busnesau presennol sy'n chwilio am fannau diogel i weithio a chydweithio. Byddwn yn lansio ein cynnig desg boeth yn swyddogol cyn bo hir, ac o fis Hydref byddwn yn agored i fusnes o'n hadeilad newydd.



*Mae Tracy & Anette yn derbyn yr allweddi i'n swyddfa newydd*

## CANOLFAN RAGORIAETH IECHYD EMOSIYNOL A LLES CYMRU NEWYDD

Yn dilyn ein newid lleoliad, byddwn yn lansio ein Canolfan Ragoriaeth Iechyd a Lles Emosiynol Cymru newydd yn swyddogol.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth newydd yn dwyn ynghyd ein 40 mlynedd o brofiad o gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd. Gyda'n hystod unigryw o gymorth gydgysylltiedig, (ac i gyd-fynd â'n pen-blwydd yn 40 oed), rydym yn falch o lansio Canolfan Ragoriaeth Iechyd a Lles Emosiynol Cymru.

## HUNANIAETH NEWYDD

Er mwyn adlewyrchu ein cynigion newydd ac i ddathlu ein 40fed flwyddyn rydym wedi datblygu brand a logo newydd.


Bellach mae arwyddair newydd gan CYCA, sy'n cefnogi'n cynnig elusennol arferol, sef: Cysylltu Ieuenctid, Plant ac Oedolion. Mae'r logo coch cryf yn adlewyrchu'r elfen 'pobl ifanc', ond hefyd 'proffesiynoldeb' ac 'ymddiriedaeth'.

Mae'r logo gwyrdd blaenllaw yn cynrychioli'r cynnig busnes newydd, CYCA: Ar-lein.

Hoffem ddiolch i Lewis Grennan, dylunydd lleol, a roddodd ei amser a'i sgiliau'n garedig i ddatblygu'r logos a'r brand newydd.


## YN DOD CYN HIR: EIN GWEFAN NEWYDD

I gyd-fynd â'n cynnig a'n brandio newydd, roedd hi'n bwysig ein bod ni'n datblygu gwefan newydd. Mae hyn yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, ond rydym yn falch o allu cynnig rhagolwg i chi:




*"Fi'n mor hapus gyda'n brand, gwefan, cyrsiau newydd a'n cefnogaeth ar-lein. Mae hyn yn golygu y gallwn helpu hyd yn oed mwy o bobl p'un ai yn ein Canolfan newydd neu o gysur eu cartrefi eu hunain." Tracy Pike*

## PRESGRIPSIYNU CYMDEITHASOL



Yn dilyn llwyddiant y cyfnod diwethaf, gyda phresenoldeb ac ymrwymiad o 100% gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, rydym wedi ymestyn ein cynnig Presgripsiynu Cymdeithasol.

Mae plant a'u teuluoedd, ar ôl cael eu cyfeirio gan feddygfeydd teulu lleol, wedi elwa o gwnsela a mentora ar-lein. Maent yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd y gall cyflwyno digidol ei gynnig gan ei fod yn fwy addas ar gyfer eu hanghenion.

## EIN PLANTOS BACH



Rydym am ddiolch i holl staff gwych y feithrinfa am eu gwaith parhaus gyda'n plantos bach. Mae plant ein defnyddwyr gwasanaeth a'n gweithwyr allweddol yn cael gweithgareddau dyddiol gan gynnwys amser cylch, amser stori, chwarae awyr agored a choginio. Mae'r gwaith hwn yn parhau trwy'r pandemig ac rydym yn falch bod ein meithrinfa Tedi Bach wedi cael ei chydnabod fel meithrinfa cefnogi gweithwyr allweddol.

*Tracy gyda Uzair Cassiem*



*Ein hystafell newydd gyda golygfa*



EIN CYFEIRIAD NEWYDD

CYCA: Cysylltu Ieuenctid, Plant ac Oedolion

Uned 2, Dragon 24,
Doc y Gogledd,
Llanelli
SA15 2LF

01554 776178
support@cycaonline.org

Rhif elusen gofrestredig: 512720

# AC MAE MWY

Cymerodd ein Prif Swyddog Gweithredol (CEO), Tracy Pike MBE, ran yn Prosiect Gwrando'r BBC ym mis Mai ar gyfer Radio 4.

Mae'r Prosiect Gwrando yn bartneriaeth rhwng BBC Radio 4, gorsafoedd radio lleol a chenedlaethol y BBC, a'r Llyfrgell Brydeinig. Fe'i sefydlwyd i roi ar gof a chadw sgyrsiau'r genedl, ond yn ystod argyfwng COVID-19 mae'r prosiect wedi newid ei fformat i recordio lleisiau, straeon a phrofiadau newydd yn ystod y cyfnod cloi.

Fel arbenigwr lleol mewn llesiant plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, rhannodd Tracy Pike ei phrofiadau a'r hyn mae hi wedi'i dysgu gyda'r Prosiect: https://www.bbc.co.uk/programmes/b01cqx3b

Yn ogystal, mae Tracy hefyd wedi cyflwyno yn mis diwethaf o'r sioe Iechyd Meddwl a Lles, ein gwaith gyda phobl ifanc sy'n profi pryder dwys a thrawma. https://twitter.com/mhwshow/status/1273198765009182722

Ac mae gennym ni ddarn am ein gwaith yng nghylchlythyr haf CGGSG (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin): 'Pam roeddem yn curo dwylo i'n Ellie ni.'

Mae Tracy hefyd yn paratoi deunydd cymorth newydd ar gyfer cyflogwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith. Mae CYCA yn falch o fod yn cynnig hyfforddiant sgiliau cadernid i blant a sgiliau tosturi i rieni wrth iddynt ddychwelyd i'r gweithle. Mae'r hyfforddiant newydd hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi athrawon sy'n dychwelyd i Ysgol Pen Rhos.

CYCA CENTRE OF EXCELLENCE